**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6364
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6364

Ken Skates AS, Comisiynydd
Comisiwn y Senedd

18 Mawrth 2024

Annwyl Ken

Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Ar 13 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Cyllid y byddai'n gwneud gwaith craffu ariannol ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (y Bil), a gyflwynwyd ar 11 Mawrth.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y bydd y Bil yn gweithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â chwotâu rhywedd a wneir yn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor eisoes wedi ystyried Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau); a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). O ystyried y gydberthynas rhwng y darnau hyn o ddeddfwriaeth, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a yw Comisiwn y Senedd wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch costau posibl sy'n deillio o'r Bil.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd

Copi at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.